OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 824 (Cy.123) (C.32)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2011

*Gwnaed - - - - 16 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 44(3) a (5) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enw

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2011.

### Diwrnod penodedig

**2.** 18 Mawrth 2011 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer rhoi mewn grym y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 mewn perthynas â hawlogaeth i daliad mewn perthynas ag addysg uwch—

(a) adran 21(1), (3) a (4); a

(b) adran 21(2) i'r graddau nad ydyw eisoes wedi ei chychwyn gan erthygl 2(e) o Orchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2010(**2**).

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

16 Mawrth 2011

(**1**) 2008 p.23.
(**2**) O.S. 2010/1329 (Cy.112) (C.81).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r pumed Gorchymyn Cychwyn sydd wedi'i wneud o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p.23) ("Deddf 2008") ac sy'n dod â darpariaethau penodedig o Ddeddf 2008 i rym o ran Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 18 Mawrth 2011 fel y diwrnod y bydd adran 21 o Ddeddf 2008 yn cael ei rhoi mewn grym o ran Cymru i'r graddau nad ydyw eisoes wedi ei rhoi mewn grym gan Orchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1329 (Cy.112) (C.81)).

Mae is-adrannau (1) i (3) o adran 21 o Ddeddf 2008 yn diwygio adran 23C o Ddeddf Plant 1989 ("Deddf 1989"). Mae Adran 21(2) yn mewnosod is-adrannau newydd (5A) i (5C), sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sydd:

- yn pennu'r swm perthnasol (bwrsariaeth addysg uwch) sy'n daladwy gan awdurdod lleol o dan adran 23C(5A) o Ddeddf 1989;
- yn pennu ystyr "addysg uwch" at ddibenion y fwrsariaeth addysg uwch;
- yn gwneud darpariaeth o ran talu'r fwrsariaeth addysg uwch; ac
- yn gwneud darpariaeth o ran yr amgylchiadau lle y gall awdurdod lleol adennill y fwrsariaeth addysg uwch.

Mae adran 21(4) yn mewnosod is-adran (2A) newydd i adran 776 o Ddeddf Treth Incwm (Incwm Masnachu ac Arall) 2005 (p.5). Mae'r is-adran newydd yn darparu nad oes unrhyw atebolrwydd i dreth incwm yn codi ar fwrsariaethau addysg uwch.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r ddarpariaeth a ganlyn o Ddeddf 2008 wedi ei rhoi mewn grym o ran Cymru gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 8(1) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 8(2) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 8(3) | 31 Mawrth 2010 | 2010/749 (Cy.77) (C.51) |
| Adran 10(1) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 15 (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 16(1) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 20(3) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 21(2) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 22(3) a (5) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 23(1) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 25(4) (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 27 | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 28 | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 29 (yn rhannol) | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 30 | 6 Ebrill 2009 | 2009/728 (Cy.64) (C.47) |
| Adran 33 | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 34 | 31 Mawrth 2010 | 2010/749 (Cy.77) (C.51) |
| Adran 35 | 6 Ebrill 2009 | 2009/728 (Cy.64) (C.47) |
| Adran 36 | 1 Medi 2009 | 2009/1921 (Cy.175) (C.91) |
| Adran 37 | 1 Medi 2009 | 2009/1921 (Cy.175) (C.91) |
| Adran 38 | 1 Medi 2009 | 2009/1921 (Cy.175) (C.91) |
| Adran 42 ac Atodlen 4 i'r graddau y maent yn ymwneud â diddymu adran 45(a) o Ddeddf Plant 1989 | 6 Ebrill 2009 | 2009/728 (Cy.64) (C.47) |
| Paragraff 4 o Atodlen 1 | 26 Ebrill 2010 | 2010/1329 (Cy.112) (C.81) |
| Adran 42 ac Atodlen 4 i'r graddau y maent yn ymwneud â diddymu adran 12(5) a (6) o'r Ddeddf Plant, ac â rhannol ddiddymu adran 91(10) o'r Ddeddf honno | 1 Medi 2009 | 2009/1921 (Cy.175) (C.91) |
| Atodlen 2 | 31 Mawrth 2010 | 2010/749 (Cy.77) (C.51) |
| Atodlen 4 i'r graddau y mae'n ymwneud â diddymu adran 12 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 | 31 Mawrth 2010 | 2010/749 (Cy.77) (C.51) |

Mae'r darpariaethau a ganlyn wedi eu rhoi mewn grym o ran Cymru a Lloegr gan Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 18 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2010 | 2009/3354 (C.154) |
| Adran 31 | 1 Ebrill 2009 | 2009/268 (C.11) |
| Adran 32 | 1 Ebrill 2009 | 2009/268 (C.11) |

Mae'r darpariaethau a ganlyn i gael eu rhoi mewn grym o ran Cymru a Lloegr gan Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 17 | 1 Ebrill 2011 | 2010/2981 (C.131) |
| Adran 18 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2011 | 2010/2981 (C.131) |

Mae amryfal ddarpariaethau o Ddeddf 2008 wedi eu rhoi mewn grym o ran Lloegr gan y Gorchmynion Cychwyn a ganlyn, a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

- O.S. 2009/268 (C.11)
- O.S. 2009/323 (C.15)
- O.S. 2009/2273 (C.99)
- O.S. 2009/3354 (C.154)
- O.S. 2010/2714 (C.126)
- O.S. 2010/2981 (C.131)

*Gweler* yn ogystal adran 44(1) a (2) o Ddeddf 2008 am y darpariaethau a ddaeth i rym ar 13 Tachwedd 2008 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol).

*Gweler* yn ogystal adran 44(9) o Ddeddf 2008 am y ddarpariaeth a fydd yn dod i rym ar yr un diwrnod ag y bydd adran 7(1) o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (p.16) yn dod i rym at ddibenion mewnosod adran 17B yn Neddf 1989 o ran Cymru.